



Mae'r manylion mewngofnodi
i gael mynediad i'r safle yn y
Canllaw i'r Hwylusydd a'r
Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL **TECHNOLEG**
WNEUD



MemRabel 2

Medpage

Trosolwg o'r cynnyrch: Mae hwn yn gloc calendr digidol sy'n gallu dangos gwahanol feintiau o fanylion am y diwrnod / dyddiad / amser ac adeg y dydd (bore, prynhawn, mis nos ac ati). Hefyd, gellir ei osod i ddangos negeseuon atgoffa gan ddefnyddio llais a llun neu negeseuon fideo.



Nodweddion allweddol: Sgrin 8" hawdd ei darllen; arddangosiad o'r amser / diwrnod / dyddiad; fformat cloc digidol; arddangosiad o adeg y dydd; hyd at 20 o nodiadau atgoffa sain / llun / fideo i'w chwarae'n ddyddiol, wythnosol, misol neu'n flynyddol.

Cysylltedd: Mae hwn yn gynnwys arunig; nid oes unrhyw gysylltedd Wi-Fi neu ddiwifr arall.

Nodiadau: Hawdd ei osod; yn cael ei bweru trwy'r prif gyflenwad trydan; gellir addasu lefel y wybodaeth am yr amser / dyddiad; negeseuon atgoffa sain a llun wedi'u rhaglwytho; teclyn rheoli o bell.



Mae'r manylion mewngofnodi
i gael mynediad i'r safle yn y
Canllaw i'r Hwylusydd a'r
Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL **TECHNOLEG**
WNEUD



Nightlux

Osram

Trosolwg o'r cynnyrch: Mae hwn yn olau nos LED, sy'n cael ei ysgogi gan symudiad, sy'n gweithio ar fatri, sydd â synhwyrdd dydd / nos. Gellir addasu'r golau i oleuo mwy o'r llawr neu fwy o'r ystafell, yn ôl y gofyn. Mae'r golau'n diffodd yn awtomatig ar ôl 10 neu 60 eiliad.



Nodweddion allweddol: Synhwyrdd dydd / nos rhag iddo gael ei ysgogi'n ddiangen yn ystod y dydd; canfodydd symudiad isgoch goddefol (PIR); goleuadau LED; gall y goleuadau gael eu cyfeirio tuag allan neu i lawr, yn ôl y gofyn.

Cysylltedd: Mae hwn yn gynnyrch arunig.

Nodiadau: Hawdd ei osod; yn gweithio ar fatri.



Mae'r manylion mewngofnodi
i gael mynediad i'r safle yn y
Canllaw i'r Hwylusydd a'r
Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL **TECHNOLEG**
WNEUD



Buddi

Buddi

Trosolwg o'r cynnyrch:

Gwasanaeth olrhain a lleoli yw *buddi*, sydd

wedi'i anelu'n bennaf at bobl â dementia. Mae'n cynnwys cadwyn GPS sy'n cael ei gwisgo ac sydd hefyd yn gyfathrebwr symudol dwy ffordd. Mae band llawes dewisol ar gael, sy'n monitro gweithgarwch ac yn synhwyro cwmpïadau.



Nodweddion allweddol: System olrhain GPS; cyfathrebu llais dwy ffordd â chanolfan fonitro; gallu geoffensio; manau geoffensio diogel ac anniogel; botwm larwm llaw; synhwyro cwmpïadau; mynediad ar-lein; hysbysiadau e-bost a negeseuon testun.

Cysylltedd: GPS; rhwydwaith ffonau symudol GSM; porth ar y we.

Nodiadau: Mae hwn yn wasanaeth ac mae'n gofyn am dâl tansysgrifio sylweddol (o leiaf 12 mis).



Mae'r manylion mewngofnodi
i gael mynediad i'r safle yn y
Canllaw i'r Hwylusydd a'r
Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL TECHNOLEG
WNEUD



C500 Keysafe

Supra – The Keysafe Company

Trosolwg o'r cynnyrch: Mae'r cloer allweddi C500 yn darparu mynediad rheoledig, cyfleus at allweddi sydd wedi'u storio, sy'n galluogi gweithwyr gofal a'r gwasanaethau brys i fynd i mewn i eiddo defnyddiwr gwasanaeth yn gyflym ac yn ddiogel heb ddaliwr allweddi.



Nodweddion allweddol: Cell fawr (uchafswm o 5/6 allwedd Yale neu 2/5 allwedd Chubb); 12 botwm pwyso; yn cael ei gyflenwi â gorchudd plastig du, colfachog; graddfa diogelwch lefel 1 LPS 1175; wedi'i gymeradwyo gan yr Heddlu trwy'r fenter Secured by Design.

Cysylltedd: Mae hwn yn gynnyrch arunig.

Nodiadau: Gellir ei hunanosod, ond mae modd ei osod yn broffesiynol.



Mae'r manylion mewngofnodi
i gael mynediad i'r safle yn y
Canllaw i'r Hwylusydd a'r
Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL TECHNOLEG
WNEUD



Larwm Hypoglycaemia Gyda'r Nos


Giant BioSensor

Trosolwg o'r cynnyrch: Mae'r ddyfais hon sy'n cael ei gwisgo ar yr arddwrn neu'n ffêr yn gallu synhwyro symptomau lefelau isel o siwgr yn y gwaed (hypoglycaemia) mewn pobl ddiabetig. Mae wedi'i llunio i'w gwisgo gyda'r nos, a bydd yn seinio larwm ac yn dirgrynu i ddeffro'r unigolyn er mwyn iddo gymryd camau adferol.

Nodweddion allweddol: Bydd yn seinio larwm pan fydd yn synhwyro 'chwys oer'; larwm clywadwy / dirgrydol sy'n cael ei wisgo ar yr arddwrn / ffêr; gall y defnyddiwr amnewid y batri.

Cysylltedd: Mae hwn yn gynnyrch arunig.

Nodiadau: Mae'r batri'n para tua 6 mis.





Mae'r manylion mewngofnodi
i gael mynediad i'r safle yn y
Canllaw i'r Hwylusydd a'r
Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL **TECHNOLEG**
WNEUD



Memo Minder Plus

Solon Security

Trosolwg o'r cynnyrch: Dyfais sy'n cael ei hysgogi gan symudiad ac sy'n chwarae negeseuon yw Memo Minder Plus, y gellir ei rhoi unrhyw le yn y cartref, er ei bod yn fwyaf ymarferol wrth y drws ffrynt. Gall chwarae negeseuon gwahanol gan ddibynnu ar ba gyfeiriad y mae'r unigolyn yn symud iddo. Gellir recordio negeseuon sain hyd at 20 eiliad o hyd.



Nodweddion allweddol: Negeseuon atgoffa sy'n cael eu hysgogi gan symudiad; mae'n caniatáu negeseuon gwahanol ar gyfer 'mynd i mewn' a 'mynd allan', yn ôl y gofyn; gellir recordio negeseuon ar y ddyfais; yn gweithio ar fatri.

Cysylltedd: Mae hwn yn gynnyrch arunig.

Nodiadau: Gellir ei osod ar wal neu ar ben bwrdd.



Mae'r manylion mewngofnodi i gael mynediad i'r safle yn y Canllaw i'r Hwylusydd a'r Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL **TECHNOLEG**
WNEUD



Reach Telecare DAU

Tynetec

Trosolwg o'r cynnyrch: Uned larwm wasgaredig teleofal sylfaenol ar gyfer y cartref yw hon, sy'n cynnig uned syml i unigolion sy'n gydnaws ag ystod eang o synwryddion a pherifferolion teleofal. Yn ogystal â'r larwm sylfaenol, mae hefyd yn cefnogi monitro sylfaenol ar gyfer anweithgarwch ac yn monitro rhag tresbaswyr.



system

gysylltiedig

Nodweddion allweddol: Modd monitro gweithgarwch 12 neu 24 awr (mae angen isgoch goddefol (PIR); 2 fewnbwn â chysylltiad parhaol; cof ar gyfer hyd at 32 o synwryddion teleofal; modd segur 24 awr sy'n gweithio ar fatri sydd â chyfleuster gwefru deallus ac sy'n hunanbrofi'n ddyddiol.

Cysylltedd: Protocol Radio 169MHz Tynetec; BS8521; TT92

Nodiadau: Yn cael ei chyflenwi ag 1 gadwyn gyffwrdd bersonol, gan gynnwys dewisiadau ar gyfer ei gwisgo; ar gael mewn du neu wyn.



Mae'r manylion mewngofnodi
i gael mynediad i'r safle yn y
Canllaw i'r Hwylusydd a'r
Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL **TECHNOLEG**
WNEUD



Canfodydd Cwmpo i'w Wisgo Tynetec

Trosolwg o'r cynnyrch:

Canfodydd cwmpo i'w wisgo ar yr arddwrn yw hwn, sydd hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio fel cadwyn ddiwifr. Mae'n cynnwys mesurydd cyflymu sy'n gallu synhwyro pan fydd rhywun yn cwmpo. Mae'r uned yn crynu os yw'n amau bod y defnyddiwr weddi cwmpo, gan roi amser iddo ganslo'r larwm, yn ôl yr angen.



system

gysylltiedig

Nodweddion allweddol: Yn canfod symudiadau amlgyfeiriad a thrawiad; ystod o osodiadau sensitifrwydd; dirgryniad sicrwydd pan fydd yn synhwyro bod y defnyddiwr wedi cwmpo; oes batri o 1-2 flynedd (yn nodweddiadol, gan ddibynnu ar faint y caiff ei ddefnyddio; mae'r batri'n hunanbrofi'n ddyddiol ac yn rhoi gwybod os yw'r batri'n isel.

Cysylltedd: Protocol Radio 169MHz Tynetec

Nodiadau: Gellir ei wisgo ar yr arddwrn neu ar wregys.



Mae'r manylion mewngofnodi i gael mynediad i'r safle yn y Canllaw i'r Hwylusydd a'r Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL **TECHNOLEG**
WNEUD



Synhwyrdd Gwely

Tynetec

Trosolwg o'r cynnyrch: Caiff y synhwyrdd gwely ei osod ar draws lled y gwely rhwng y fatres a'r gwaelod. Caiff y cyfnodau monitro eu gosod ar Reolydd y Synhwyrdd. Os bydd yr unigolyn yn mynd i'r gwely ac yna'n codi eto ac yn peidio â dychwelyd cyn pen yr amser sydd wedi'i bennu, caiff galwad larwm ei thrawsyrro.



system — **gysylltiedig**

Nodweddion allweddol: Arddangosiad LED; cloc amser real sy'n diweddarau'n awtomatig yn ystod Amser Haf Prydain; cyfnodau monitro y gellir eu ffurfweddu; swyddogaeth gosod yn gyflym; botwm galw gofalwr; modd profi.

Cysylltedd: Protocol Radio 169MHz Tynetec

Nodiadau: Gall lamp wrth ochr y gwely gael ei rhoi ymlaen/diffodd yn awtomatig gan ddefnyddio Pecyn Offer Switsiwr Prif Wifren wedi'i reoli o bell. Caiff yr holl weithgarwch "yn y gwely" ac "allan o'r gwely" ei drawsyrro a'i gofnodi.



Mae'r manylion mewngofnodi i gael mynediad i'r safle yn y Canllaw i'r Hwylusydd a'r Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL TECHNOLEG
WNEUD



Synhwyrdd Eithafion Tymheredd

Tynetec

Trosolwg o'r cynnyrch: Bydd hwn yn darparu rhybudd cynnar o dymhereddau eithafol o isel neu uchel yn y cartref, a all arwain at y preswlydd yn dioddef afiechydon yn gysylltiedig ag annwyd, hypothermia neu ddadhydradu. Yn ogystal, caiff yr adeilad ei ddiogelu rhag pibellau sydd wedi byrstio neu beryglon tân posibl.



system

gysylltiedig

Nodweddion allweddol: Tymheredd is y larwm: 5 gradd C am 30 munud Tymheredd uwch y larwm: 30 gradd C am 5 munud Larwm ar gyfer cyfradd codi'r tymheredd: 8 gradd C fesul munud Mae'r batri'n hunanbrofi'n ddyddiol ac yn rhoi gwybod os yw'r batri'n isel.

Cysylltedd: Protocol Radio 169MHz Tynetec

Nodiadau: Dylai'r Synhwyrdd Eithafion Tymheredd gael ei osod ar wal yn y cyntedd neu'r ystafell fyw, oddi wrth unrhyw ddrafftiau neu ffynonellau gwres.





Mae'r manylion mewngofnodi i gael mynediad i'r safle yn y Canllaw i'r Hwylusydd a'r Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL **TECHNOLEG**
WNEUD



Didolwr Pils Datblygedig

Tynetec



Trosolwg o'r cynnyrch: Bydd hwn yn seinio larwm pan fydd yn amser i'r defnyddiwr gymryd ei feddyginiaeth – os na chaiff y pils eu cymryd o'r didolwr cyn pen cyfnod rhagosodedig, caiff galwad larwm ei thrawsyrru. Bydd y Didolwr Pils yn sicrhau bod y dos cywir ar gael ar yr adeg gywir o'r dydd, gan gadw'r gweddill wedi'i gloi o'r golwg.

system

gysylltiedig

Nodweddion allweddol: Cynhwysedd 1 i 28 niwrnod – 1 i 28 dos y dydd; caead cloadwy (sy'n cael ei gyflenwi ag 1 allwedd); larwm clywadwy a golau LED sy'n fflachio pan fydd y pils yn "barod"; oes batri o 12 mis (fel arfer); mae'r batri'n hunanbrofi'n ddyddiol ac yn rhoi gwybod os yw'r batri'n isel.

Cysylltedd: Protocol Radio 169MHz Tynetec

Nodiadau: Caiff yr amseroedd y mae'r pils yn "barod" a'r amseroedd y cânt eu "cymryd" eu trawsyrru a'u cofnodi hefyd.



Mae'r manylion mewngofnodi
i gael mynediad i'r safle yn y
Canllaw i'r Hwylusydd a'r
Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL **TECHNOLEG**
WNEUD



Canfodydd Mwg

Tynetec

Trosolwg o'r cynnyrch: Pan gaiff ei ysgogi, bydd larwm lleol yn seinio a chaiff galwad larwm ei thrawsyrro. Gall y Ganolfan Reoli neu'r Rheolwr Lleol siarad â'r preswlydd ac asesu'r risg cyn cysylltu â'r gwasanaethau brys.



system

gysylltiedig

Nodweddion allweddol: Synhwyrdd ffotodrydanol/seinydd 85 dB; botwm distewi / profi a dangosydd statws LED; oes canfodydd o 10 mlynedd (gan gynnwys y batri); mae'r batri'n hunanbrofi'n ddyddiol ac yn rhoi gwybod os yw'r batri'n isel.

Cysylltedd: Protocol Radio 169MHz Tynetec

Nodiadau: Nid yw'r canfodydd mwg hwn yn addas ar gyfer y gegin na'r ystafell ymolchi. Mae fersiwn ohono ar gael i bobl fyddar sy'n cysylltu â goleuadau strobio a siglwyr clustogau.



Mae'r manylion mewngofnodi
i gael mynediad i'r safle yn y
Canllaw i'r Hwylusydd a'r
Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL TECHNOLEG
WNEUD



Uned Larwm Wasgaredig Teleofal Lifeline Vi

Tunstall

Trosolwg o'r cynnyrch: Uned larwm wasgaredig teleofal sylfaenol ar gyfer y cartref yw hon, sy'n cynnig uned syml i unigolion sy'n gydnaws ag ystod eang o synwryddion a pherifferolion teleofal.

Yn ogystal â'r larwm sylfaenol, mae hefyd yn cefnogi monitro sylfaenol ar gyfer anweithgarwch ac yn monitro rhag tresbaswyr.

Nodweddion allweddol: Yn cynnal hyd at 15 o berifferolion diwifr (+ 1 mewnbwn parhaol); ffurfweddu ar sail digwyddiadau; synhwyrdd tymheredd amgylchynol annatod; atgoffâd i brofi'r gadwyn; yn gweithio'n segur am hyd at 40 awr, gydag un galwad larwm 30 munud.

Cysylltedd: Protocol Radio 869MHz Tunstall; protocolau TTNEW, TT92, TT21 a BS8521.

Nodiadau: Mae angen yr amrywiolyn Vi+ mwy datblygedig ar gyfer gweithrediadau mwy datblygedig, fel negeseuon atgoffa a synwryddion rhithwir.



system — **gysylltiedig**



Mae'r manylion mewngofnodi i gael mynediad i'r safle yn y Canllaw i'r Hwylusydd a'r Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL TECHNOLEG
WNEUD



Cadwyn iVi gyda Chanfodydd Cwmpo

Tunstall

Trosolwg o'r cynnyrch: Mae'r iVi yn galluogi'r defnyddiwr i bwysu botwm cymorth i wneud galwad larwm pan fydd angen cymorth arno o unrhyw le yn y cartref. Mae hefyd yn darparu haen ychwanegol o ddiogelwch trwy alw am gymorth yn awtomatig os caiff cwmpiad ei synhwyro ac nad yw'r defnyddiwr yn gallu pwysu'r botwm cymorth.



system

gysylltiedig

Nodweddion allweddol: Botwm cymorth; synhwyro cwmpadau'n awtomatig; oes batri o hyd at 12 mis (gan ddibynnu ar faint y caiff ei defnyddio); amrywiaeth o ddewisiadau gwisgo; gosodiad sensitifrwydd cwmpo; botwm canslo; gwrth-ddŵr – gellir ei gwisgo yn y gawod.

Cysylltedd: Protocol Radio 869MHz Tunstall

Nodiadau: Mae'r iVi yn cynnwys rhybudd pan nad yw'n cael ei gwisgo, a fydd yn rhoi gwybod i'r ganolfan fonitro os nad yw'r iVi wedi dangos symudiad am gyfnod amser. Mae llewys o liwiau amrywiol ar gael i'r ddyfais.



Mae'r manylion mewngofnodi
i gael mynediad i'r safle yn y
Canllaw i'r Hwylusydd a'r
Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL TECHNOLEG
WNEUD



Botwm Galwr Ffug

Tunstall



Trosolwg o'r cynnyrch: Daw'r sbardun hwn â braced i'w osod ar y wal, er mwyn ei leoli ger y drws wrth ei ddefnyddio fel botwm galwr ffug, neu mewn rhannau eraill o'r cartref wrth ei ddefnyddio fel botwm panig ar y wal.

system — **gysylltiedig**

Nodweddion allweddol: Botwm larwm diwifr; gellir ei osod i wneud galwad mud i'r ganolfan fonitro, a fydd yn gallu gwranddo ar yr hyn sy'n digwydd yn y cartref.

Cysylltedd: Protocol Radio 869MHz Tunstall

Nodiadau: Cwmpas diwifr o hyd at 50m (fel arfer).



Mae'r manylion mewngofnodi
i gael mynediad i'r safle yn y
Canllaw i'r Hwylusydd a'r
Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL TECHNOLEG
WNEUD



Canfodydd Mwg Tunstall

Trosolwg o'r cynnyrch: Mae'r canfodydd mwg optegol, cysylltiedig hwn yn cynyddu sicrwydd trwy wneud galwad larwm i'r ganolfan fonitro a chanu larwm clywadwy lleol. Mae ganddo fatri annatod sy'n para 10 mlynedd.



system  **gysylltiedig**

Nodweddion allweddol: Larwm mwg optegol; rhybudd lleol a larwm i'r ganolfan fonitro; oes batri o 10 mlynedd a rhybudd pan fydd y batri'n isel.

Cysylltedd: Protocol Radio 869MHz Tunstall

Nodiadau: Cwmpas diwifr o hyd at 50m; oes y canfodydd a'r batri = 10 mlynedd.



Mae'r manylion mewngofnodi i gael mynediad i'r safle yn y Canllaw i'r Hwylusydd a'r Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL TECHNOLEG
WNEUD



Synhwyrdd Eithafion Tymheredd Tunstall



Trosolwg o'r cynnyrch: Mae'r synhwyrdd eithafion tymheredd yn monitro tymhereddau eithafol o uchel neu isel a chodiad cyflym yn y tymheredd, Fel arfer, caiff ei osod ar y nenfwd neu ar wal y gegin i amddiffyn pobl ac eiddo rhag tymhereddau eithafol.

system gysylltiedig

Nodweddion allweddol: Larymau ar wahân ar gyfer tymhereddau uchel ac isel; larwm pan fydd y tymheredd yn codi'n gyflym; mae'r trothwyon tymheredd wedi'u rhagosod ac nid oes modd eu ffurfweddu – gweler y nodiadau.

Cysylltedd: Protocol Radio 869MHz Tunstall

Nodiadau: Mae pedair fersiwn ar gael sy'n darparu trothwyon rhybuddio gwahanol (lleiaf / uchaf): 2 / 35°C; 2 / 42°C; 12 / 42°C; 16 / 42°C.



Mae'r manylion mewngofnodi
i gael mynediad i'r safle yn y
Canllaw i'r Hwylusydd a'r
Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL **TECHNOLEG**
WNEUD



Synhwrydd Enwresis Gwely Tunstall



Trosolwg o'r cynnyrch:

Mae'r synhwrydd

enwresis hwn ar gyfer gwllâu yn darparu modd diffwdan o ganfod achosion o enwresis wrth iddynt ddigwydd, gan sicrhau y gall gofalywr ymateb yn gyflym yn ôl yr angen, ond fel arall, nid ydynt yn amharu ar gwsg y defnyddiwr.

system

gysylltiedig

Nodweddion allweddol: Mat synhwyro tenau, gwrth-ddŵr a gwydn, sy'n cael ei osod rhwng y fatres a chynfas y gwely.

Cysylltedd: Protocol Radio 869MHz Tunstall

Nodiadau: Mae'r mat synhwyro wedi'i wneud o blastig ac wedi'i lunio i alluogi'r mat i gael ei lanhau'n hawdd a'i aildefnyddio ar unwaith ar ôl i'r larwm ganu.



Mae'r manylion mewngofnodi
i gael mynediad i'r safle yn y
Canllaw i'r Hwylusydd a'r
Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL **TECHNOLEG**
WNEUD



Larwm Gwlychu'r Gwely Eclipse

DRI Sleeper

Trosolwg o'r gynnyrch: Larwm enwresis arunig yw hwn sy'n cynnwys cysylltiad diwifr rhwng y synhwyrdd, sy'n cael ei osod y tu mewn i bad anymataliad, a'r uned larwm sylfaenol.



Nodweddion allweddol: Cysylltiad diwifr rhwng y synhwyrdd ac uned larwm; mae'r larwm yn canu ar tua 98 desibel.

Cysylltedd: Mae hwn yn gynnyrch arunig.

Nodiadau: Daw'r Eclipse ag Wrosynhwyrdd di-fetel, datblygedig, sy'n golygu na fydd yn achosi unrhyw gosi poenus i'r croen ac y caiff lleithder ei ganfod yn gyflym.



Mae'r manylion mewngofnodi
i gael mynediad i'r safle yn y
Canllaw i'r Hwylusydd a'r
Canllaw i'r Cyfranogwr



Y GWAHANIAETH
GALL **TECHNOLEG**
WNEUD



Olrheinwr GPS BackTrack D-Tour

Bushnell

Trosolwg o'r cynnyrch: Olrheinwr GPS sylfaenol yw hwn sy'n eich galluogi i gadw hyd at 5 o lleoliadau yn ei gof, gan eich galluogi i lywio'n ôl iddynt gan ddefnyddio ei gwmpawd digidol gosodedig.



Nodweddion allweddol: Gellir cadw hyd at 5 lleoliad; sgrin LCD ôl-oleuedig; yn darparu pellter a lleoliad yn ôl i bob lleoliad yn ei gof.

Cysylltedd: Mae hwn yn gynnyrch arunig, er bod ganddo dderbynnydd GPS.

Nodiadau: Nid yw'n system larwm GPS – cymorth llywio ydyw.